Dod yn
warchodwr plant cofrestredig

Dod yn **warchodwr plant cofrestredig**

Os hoffech chi gael gyrfa sy'n rhoi boddhad, bod yn feistr arnoch chi eich hun a chynnal eich busnes o'ch cartref, yna gallai gwarchod plant fod yn yrfa ddelfrydol i chi. Fel gwarchodwr plant cofrestredig:

- byddwch yn gofalu am eich plant eich hun ar yr un pryd os oes gennych deulu
- byddwch yn cynnig awyrgylch hapus ac ysgogol i'r plant yr ydych yn gofalu amdanynt
- byddwch yn darparu cyfleoedd dysgu a gweld y plant yn datblygu
- byddwch yn gweithio yn eich cartref, yn dewis eich oriau gwaith a'r gwasanaethau ydych chi'n eu darparu
- bydd gennych yrfa lle bydd pob diwrnod yn wahanol
- byddwch yn cyfarfod gwarchodwyr plant eraill yn eich ardal ac yn dod i adnabod eich cymuned leol
- byddwch yn ymuno ag oddeutu 75,000 o warchodwyr plant yng Nghymru a Lloegr sy'n darparu gofal plant o safon.

"Mae gwarchod plant yn rhoi cymaint o foddhad"

"Rydw i wedi bod yn gwarchod plant am bron i bum mlynedd. Cyn hynny roeddwn i'n arfer gweithio oriau hir fel rheolwraig gwasanaethau traffordd, ond penderfynais fod angen newid ar ôl genedigaeth fy ail fab. Rwy'n hollol siŵr fy mod wedi gwneud y dewis iawn o ran gyrfa, gan mai'r rhain yw'r tair blynedd orau. Rydw i wrth fy modd yn gwarchod plant.

Rydw i wedi manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant, ac yn ogystal â gofalu am nifer o blant, rydw i hefyd yn gweithio fel gwarchodwr plant cynorthwyol ac yn rhoi cymorth a chyngor i warchodwyr plant newydd. Rydw i'n meddwl bod gwarchod plant yn rhoi cymaint o foddhad – ac allaf i ddim peidio â dweud wrth bawb mor ardderchog yw'r gwaith."

Fiona, gwarchodwr plant cofrestredig

"Mae gwarchodwyr plant yn weithwyr gwirioneddol broffesiynol"

"Pan roddais y gorau i'm swydd er mwyn gofalu am fy merch, penderfynais y gallai gwarchod plant fod yn yrfa i mi. Roedd gen i rywfaint o brofiad gofal plant eisoes ar ôl gwneud gwaith gwirfoddol yng nghylch chwarae fy merch, a bu hyn yn help i mi gael fy lleoliadau gofal plant cyntaf.

Rydw i wedi gweld gweithio fel gwarchodwr plant yn brofiad positif, ac fel arfer nid yw rhieni yn synnu o weld dyn yn gwarchod plant. Mae 'na lawer o rieni sengl yn fy ardal i, felly gallaf gynnig dylanwad gwrywaidd cyson ym mywydau'r plant hynny. Rydw i wedi darganfod fod gwarchod plant yn yrfa ardderchog, ac mae'n cyd-fynd â'm bywyd teuluol. Mae gwarchodwyr plant yn weithwyr gwirioneddol broffesiynol sy'n darparu gofal ac addysg gynnar, yn ogystal â bod yn fusnes. Yn wir gall fod yn yrfa sy'n rhoi llawer o foddhad."

Tim, gwarchodwr plant cofrestredig

Beth yw gwaith **gwarchodwr plant cofrestredig**?

Fel gwarchodwr plant cofrestredig byddwch yn gofalu am un plentyn neu fwy dan 8 oed am fwy na dwy awr y dydd, fel arfer yn eich cartref eich hun, am dâl. Fel gwarchodwr plant cofrestredig byddwch yn gweithio yn unol â safonau cenedlaethol, ac yn cael eich arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i sicrhau eich bod yn darparu awyrgylch ddiogel ac ysgogol i'r plant yr ydych yn gofalu amdanynt. Fel arfer byddwch yn hunangyflogedig ac yn cynnal eich busnes eich hun. Er y bydd pob diwrnod yn wahanol, gall diwrnod nodweddiadol gynnwys y canlynol:

- mynd i'r parc, amgueddfa, llyfrgell neu gylch chwarae
- trefnu gweithgareddau addysgol hwyliog ac ysgogol, fel gwisgo dillad ffansi, chwarae creadigol, darllen ac archwilio digwyddiadau diwylliannol
- darparu prydau bwyd a byrbrydau i'r plant, eu cynnwys yn y gwaith o baratoi bwyd a dewis bwydlenni
- mynd â phlant i/o'r ysgol neu glybiau
- gweithio gyda gwarchodwyr plant lleol eraill i drefnu gweithgareddau grŵp.

* **Dechrau** arni

Cyn y gallwch ddechrau gweithio fel gwarchodwr plant yn gofalu am blant dan 8 oed yn eich cartref, bydd angen i chi gofrestru gydag AGGCC*.

Cofrestru – arweiniad cam-wrth-gam

1. Ewch i sesiynau briffio gwarchod plant cyn cofrestru i ddysgu mwy am ddod yn warchodwr plant. Gallwch ddarganfod pryd y cynhelir y sesiwn nesaf yn eich ardal chi drwy gysylltu â'ch swyddfa AGGCC leol (gweler manylion cysylltu ar dudalen 8).
2. Darllenwch yr holl wybodaeth a roddir i chi yn ystod y sesiwn, gan gynnwys safonau cenedlaethol gwarchod plant, gan y bydd rhaid i chi egluro i'r Arolygydd AGGCC sut yr ydych yn bwriadu cwrdd â'r gofynion cyn y gallwch ddechrau gwarchod plant.
3. Cwblhewch eich cwrs Cyflwyniad i Arferion Gwarchod Plant (yn y cartref) (cyn i chi gofrestru) a'ch cwrs cymorth cyntaf (o fewn y chwe mis cyntaf ar ôl i chi ddechrau ar eich gwaith fel gwarchodwr plant).
4. Ewch i sesiwn fentora NCMA i gael cyngor ar sut i ysgrifennu eich polisïau a'ch gweithdrefnau a fydd yn eich helpu i gwblhau rhan dau ffurflen gais AGGCC.
5. Cwblhewch a dychwelwch ddwy ran pecyn cais AGGCC. Yna bydd AGGCC yn rhoi gwybodaeth i chi ar sut i wneud cais am ddatgeliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol ar eich cyfer chi eich hun ac ar gyfer unrhyw un arall yn eich cartref sy'n hŷn na 16 oed.
6. Bydd AGGCC yn cysylltu â chi i drefnu bod arolygwr yn ymweld â'ch cartref. Bydd rhaid iddo sicrhau eich bod yn addas i ofalu am blant a bod eich cartref yn ddiogel ac yn gwbl addas i blant.
7. Byddwch yn derbyn eich tystysgrif cofrestru ac yn dechrau gweithio fel gwarchodwr plant cofrestredig. Gwnewch gais am grant cychwyn os ydych yn gymwys (byddwch yn cael gwybod am hyn yn ystod y broses gofrestru).

Llongyfarchiadau!

*Mae'n anghyfreithlon gofalu am blant dan 8 oed yn eich cartref am fwy na dwy awr y dydd os nad ydych wedi cofrestru (onid yw'r plentyn yn perthyn trwy waed i chi).

"Mae'n wych gweld y plant yn datblygu"

"Rydw i wedi bod yn gwarchod plant am 25 mlynedd bellach, ac rwyf yn perthyn i rwydwaith lleol sy'n recriwtio ac yn hyfforddi gwarchodwyr plant i ofalu am blant ag anghenion ychwanegol. Dechreuais warchod plant gan ei fod yn cyd-fynd â'm bywyd teuluol. Wrth i fy mhlant i dyfu roeddwn yn teimlo fod arnaf angen sialens, felly ymunais â'r rhwydwaith i ofalu am blant anabl. Rydw i'n mwynhau'r gwaith yn wirioneddol, ac mae'n wych gweld y plant yn datblygu."
Brenda, gwarchodwr plant cofrestredig

* Rhai **cwestiynau a ofynnir yn aml**

A oes rhaid i mi gofrestru? Os ydych yn gofalu am blant dan 8 oed yn eich cartref ac os nad yw'r plant yn perthyn trwy waed i chi, yn ôl y gyfraith mae'n ofynnol ichi gofrestru a chael eich arolygu gan AGGCC*.

A yw cychwyn yn fater costus? Dim o gwbl. Fel gwarchodwr plant newydd yng Nghymru byddwch yn cael gwerth hyd at £300 o offer (fel y gwêl eich Partneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant orau); ac aelodaeth o NCMA yn rhad ac am ddim am flwyddyn – ewch i dudalen 8 i weld pa fuddiannau y bydd NCMA yn eu cynnig i chi fel aelod.

Am faint o blant allaf i ofalu? Bydd AGGCC yn pennu nifer y plant y gallwch ofalu amdanynt, hyd at fwyafrif o chwech o blant dan 8 oed, ac o'r rhain ni all mwy na thri fel arfer fod o dan 5 oed. Bydd y niferoedd hyn yn cynnwys eich plant chi eich hun os oes gennych rai.

Oes raid i mi fyw mewn tŷ mawr? Nid oes raid ichi gael tŷ mawr a gardd i fod yn warchodwr plant. Nid oes raid ichi fod yn berchen ar eich cartref eich hun hyd yn oed.

Faint fyddaf i'n ei ennill? Chi fydd yn gyfrifol am bennu eich prisiau. Darganfyddwch beth yw prisiau gwarchodwyr plant lleol drwy gysylltu ag NCMA neu'r Adran Plant a Theuluoedd (gweler tudalen 8).

* Beth yw'r rhagolygon i'r **dyfodol**?

Mae gwarchod plant yn yrfa ddeinamig sy'n datblygu, felly, unwaith y byddwch wedi sefydlu eich busnes newydd, mae digonedd o gyrsiau a chyfleoedd hyfforddiant a fydd yn datblygu eich gwybodaeth a'ch hyder. Dyma rai yn unig o'r opsiynau sydd ar gael i chi:

Cymwysterau Mae llawer o gymwysterau gofal plant y gallwch weithio tuag atynt, o hyfforddiant rhagarweiniol sylfaenol hyd at lefel gradd!

Pan fyddwch yn cychwyn ar y gwaith, bydd angen ichi fynychu cwrs rhagarweiniol fel rhan o'ch cofrestriad. Cyflwyniad i Arferion Gwarchod Plant (yn y cartref)(ICP) fydd hwn, ac mae'n ffurfio uned gyntaf y Diploma mewn Gofal Plant yn y Cartref (DHC), a gydnabyddir yn genedlaethol, a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer gwarchodwyr plant a nanis. Mae pedair uned arall yn ffurfio Diploma Lefel 3 mewn Gofal Plant yn y Cartref.

Bod yn rhan o'r gymuned Mae nifer helaeth o brosiectau lleol lle mae gwarchodwyr plant yn helpu teuluoedd lleol. Mae'r rhain yn cynnwys gwarchodwyr plant sy'n cynnig seibiant i deuluoedd sydd â phlant anabl; a gofalu am blant rhieni yn eu harddegau i ganiatáu iddynt ddychwelyd at addysg, hyfforddiant neu waith. Bydd cymryd rhan mewn prosiect yn y gymuned yn caniatáu i chi ychwanegu dimensiwn newydd at eich gyrfa a dysgu rhywbeth newydd.

Dechrau da/Quality start

Fel gwarchodwr plant newydd efallai y byddwch yn gallu manteisio ar becyn aelodaeth NCMA arbennig sy'n cynnwys:

- Aelodaeth o'r NCMA am flwyddyn
- Gwerth 12 mis o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus
- Set gyflawn o waith papur ar gyfer busnes, gan gynnwys cytundebau
- Cês y gellir ei gloi i gadw'ch gwaith papur yn ddiogel.

Os ydych yn gymwys ar gyfer grant cychwyn gan eich awdurdod lleol yna bydd y grant yn talu'n uniongyrchol am y pecyn Dechrau da/Quality Start. Bydd eich awdurdod lleol yn gallu dweud wrthych a ydych yn gymwys. Gallwch ddarganfod ei rif drwy ffonio NCMA ar 0800 169 4486.

* Ymuno ag **NCMA**

Mae bron i 50,000 o warchodwyr plant cofrestredig yng Nghymru a Lloegr yn perthyn i Gymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant (NCMA), sydd wedi bod yn rhoi cymorth i warchodwyr plant ers 1977. Mae NCMA yn sefydliad aelodaeth, ac fel aelod byddwch yn cael y buddion canlynol:

Cyngor arbenigol a chynrychiolaeth gyfreithiol Bydd NCMA yn rhoi gwybodaeth i chi sydd wedi ei diweddaru'n rheolaidd a chyngor ar bob agwedd ar fod yn warchodwr plant cofrestredig, un ai os bydd arnoch angen cymorth wrth gyfrifo eich lwfansau treth neu wrth negydu cytundeb gwarchod plant. Er tawelwch meddwl, fel aelod o NCMA byddwch yn gallu cael cynrychiolaeth gyfreithiol am ddim mewn materion sy'n ymwneud â gwarchod plant yn ogystal â chyngor am ddim ar faterion proffesiynol a chyfreithiol.

Cylchgrawn Who Minds? Bydd cylchgrawn lliwgar NCMA yn rhoi'r newyddion diweddaraf i chi am faterion sy'n effeithio ar warchodwyr plant, erthyglau nodwedd defnyddiol, cynigion a nwyddau am ddim.

Gostyngiadau ar gynhyrchion Fel aelod o NCMA byddwch yn cael gostyngiadau ar amrywiaeth o gyhoeddiadau a chynhyrchion NCMA, a ddatblygwyd yn benodol ar gyfer gwarchodwyr plant. Yn ogystal, byddwch yn gallu prynu cynhyrchion cyfyngedig sydd ar gael i aelodau yn unig, megis yswiriant car a chartref a gynlluniwyd ar gyfer gwarchodwyr plant.

Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus Fel gwarchodwr plant cofrestredig bydd angen yswiriant atebolrwydd cyhoeddus arnoch. Mae polisi yswiriant NCMA wedi cael ei lunio gan bobl sy'n deall y maes gwarchod plant, ac mae hwn ar gael i aelodau NCMA yn unig.

Cynllun lleoedd gwag Gall aelodau NCMA ymuno â chynllun lleoedd gwag ar-lein a hysbysebu eu lleoedd gwag i rieni.

* **Y cam** nesaf?

Mae gwarchodwyr plant cofrestredig yn gweithio yn eu cartrefi eu hunain, yn gofalu am blant a phobl ifanc, ac mae NCMA yn cynnig cymorth drwy gydol eich gyrfa gwarchod plant, pa un ai ydych yn cychwyn ar y gwaith neu wedi bod yn gwarchod plant am amryw o flynyddoedd.

Os ydych chi'n gwybod mai gwarchod plant yw'r yrfa i chi, gallwch gysylltu â'r canlynol i gael cymorth a chyngor.

Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant/ National Childminding Association (NCMA) – Swyddfa Cymru

NCMA yw'r sefydliad proffesiynol ar gyfer gwarchodwyr plant cofrestredig a gall roi llawer o gymorth a chyngor ichi wrth ichi gychwyn yn y gwaith.

Ffôn: 0845 880 1299
Rhyngrwyd: www.ncma.org.uk
NCMA, Ocean Buildings, Cilgant Bute, Caerdydd CF10 5AY

Adran Plant a Theuluoedd

Mae'r Adran yn cynnig manylion am wasanaethau gwybodaeth plant yng Nghymru, sy'n gallu eich helpu chi wrth ichi gychwyn eich gyrfa gwarchod plant.

Ffôn: 029 2082 6802

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

AGGCC yw'r corff yn y llywodraeth genedlaethol sy'n gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwarchodwyr plant yng Nghymru.

Ffôn: 01443 848450 i gael manylion am eich swyddfa leol
Rhyngrwyd: www.csiw.wales.gov.uk

Mae'r wybodaeth a geir yn y daflen hon yn gymwys i Gymru yn unig. I gael mwy o wybodaeth am warchod plant yn Lloegr ffoniwch Linell Gymorth NCMA ar 0800 169 4486. Noder fod yr holl wybodaeth yn gywir adeg mynd i'r wasg (Ebrill 2008) ond gall gael ei newid.

ncma

Cód: RC02 04/08